**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3082

# Rheoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008

**Cofnodion**

**10.**—(1) Rhaid i'r clerc neu'r person sy'n gweithredu fel clerc at ddibenion y cyfarfod lunio cofnodion o drafodion cyfarfod cydbwyllgor; a rhaid iddynt gael eu llofnodi (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y cydbwyllgor) gan gadeirydd cyfarfod nesaf y cydbwyllgor.

(2) Rhaid i'r cydbwyllgor roi i'w awdurdod addysg lleol gopi o'r cofnodion drafft, neu'r cofnodion a lofnodwyd, o unrhyw un o'i gyfarfodydd pan ofynnir amdanynt gan yr awdurdod addysg lleol hwnnw.

(3) Rhaid gwneud cofnodion o'r trafodion mewn llyfr a gedwir at y diben gan y clerc a chaniateir eu gwneud ar dudalennau rhydd sydd wedi'u rhifo'n olynol ond yn yr achos hwnnw rhaid i'r person sy'n llofnodi'r cofnodion lofnodi pob tudalen â llythrennau cyntaf ei enw.

(4) Rhaid i'r person sy'n gweithredu fel clerc y cydbwyllgor at ddibenion unrhyw gyfarfod gofnodi yn union o flaen y cofnod sy'n rhoi cofnodion y cyfarfod hwnnw yn y llyfr neu ar y tudalennau a ddefnyddir at y diben hwnnw enwau aelodau'r cydbwyllgor ac enw unrhyw berson arall sy'n bresennol yn y cyfarfod o dan sylw.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), rhaid i'r cydbwyllgor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, drefnu bod y canlynol ar gael i'w harchwilio ym mhob un o'r ysgolion a'r cyrff addysg bellach sy'n cydlafurio gan unrhyw berson sydd â diddordeb, a rhoi i'r cyrff llywodraethu sy'n cydlafurio—

(a) copi o'r agenda ar gyfer pob cyfarfod;

(b) copi o gofnodion llofnodedig o bob cyfarfod o'r fath;

(c) copi o unrhyw adroddiad neu bapur arall a ystyriwyd mewn unrhyw gyfarfod o'r fath;

(ch) copi o gofnodion drafft unrhyw gyfarfod, os ydynt wedi'u cymeradwyo gan y person sy'n gweithredu fel cadeirydd y cyfarfod hwnnw; ac

(d) copi o'r agenda a'r cofnodion a lofnodwyd ar gyfer pob cyfarfod a chopi o unrhyw adroddiad neu bapur arall a ystyriwyd yn y cyfarfod.

(6) Caiff y cydbwyllgor hepgor o unrhyw eitem y mae'n ofynnol ei rhoi ar gael yn unol â pharagraff (5) unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) person a enwir sy'n gweithio, neu y bwriedir iddo weithio, mewn ysgol neu i gorff addysg bellach;

(b) disgybl a enwir mewn ysgol neu ymgeisydd am gael ei dderbyn i ysgol neu gan gorff addysg bellach;

(c) unrhyw fater arall sydd, oherwydd ei natur, yn fater y mae'r cydbwyllgor wedi'i fodloni y dylai aros yn gyfrinachol.

(7) Rhaid i bob tudalen o gopïau cyhoeddedig o unrhyw gofnodion drafft o drafodion cyfarfodydd a gymeradwywyd gan y cadeirydd ddangos mai cofnodion drafft ydynt.